WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Ansawdd Data

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

**Cyhoeddwyd:** Hydref 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 539A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall unigol, nac am unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod yn adran 45 yn amlinellu'r drefn y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei dilyn wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, phan fo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Aelodau'r tîm a ymgymerodd â'r gwaith oedd Gareth Lewis a Paul Cunningham.

# Cynnwys

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol o ran ansawdd data; fodd bynnag, mae ein dadansoddiad o ddata'n dangos graddau amrywiol o effeithiolrwydd ar gyfer sicrhau cysondeb o ran cywirdeb data.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Mae trefniadau wedi'u sefydlu ar gyfer llywodraethu a rheoli ansawdd data, ond gellid cryfhau'r trefniadau sicrwydd ymhellach | 7 |
| Mae'r polisi a'r prosesau ansawdd data yn briodol at ei gilydd | 10 |
| Mae ein dadansoddiad o ddata yn dangos darlun cymysg o ran cywirdeb ansawdd data | 14 |
| Atodiadau | |
| Canlyniadau dadansoddiad o ddata demograffig cleifion | 20 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Mae'r GIG yng Nghymru yn defnyddio gwybodaeth fel rhan annatod o'i ddull o ddarparu gwasanaethau iechyd. Yn weithredol, mae cyrff y GIG yn dibynnu'n drwm ar systemau gwybodaeth electronig i gefnogi ystod o weithgareddau allweddol, gan gynnwys:

- gweinyddu, llunio amserlenni a neilltuo lle ar gyfer cleifion;
- prosesau diagnostig, trefnu profion, gofyn am ganlyniadau ac edrych arnynt;
- cyfuno llwybrau gofal sylfaenol ac eilaidd, rhannu gwybodaeth bwysig am gleifion a allai achub bywydau;
- rheolaeth ariannol effeithiol a darparu modd i allu rheoli cynhyrchedd;
- darparu'r gofal gorau i gleifion yn seiliedig ar fanylion clinigol a demograffig cywir; a
- nodi a chyflawni canlyniadau clinigol a busnes.

**2.** Mae'r wybodaeth a ddefnyddir i gefnogi prosesau rheoli a darparu gofal iechyd yn ddibynadwy dim ond os yw ansawdd y data sy'n sail iddi'n gadarn. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn nodi chwe elfen graidd sy'n effeithio ar ansawdd data, sef amseroldeb, cyflawnder, dilysrwydd, cysondeb, manylrwydd a chywirdeb. Ni fydd bob amser yn bosibl sicrhau bod data 100 y cant yn gywir, 100 y cant o'r amser, ond mae'n hollbwysig bod gan gyrff iechyd drefniadau priodol ac effeithiol wedi'u sefydlu ar gyfer ansawdd data er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar risgiau clinigol, cefnogi cyflenwi gweithredol a rheoli effeithiol, ac i fod yn sail i brosesau rheoli perfformiad a sicrwydd y Bwrdd Iechyd.

**3.** Yn 2008, cynhaliodd y Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Corfforaethol adolygiad ar draws Ymddiriedolaethau blaenorol y GIG i asesu'r trefniadau ansawdd data. Amlygodd yr adroddiad ystod o arferion amrywiol, a gwnaeth nifer o argymhellion i wella'r trefniadau. Roedd y Llythyr Gweinidogol (EH/ML/007/08) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2008 yn cynnwys argymhellion ffurfiol ar gyfer pob Ymddiriedolaeth y GIG a Bwrdd Iechyd Lleol. Mae gwaith y Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Corfforaethol bellach yn ffurfio rhan o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Er nad yw Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi gwneud gwaith dilynol ffurfiol ar yr adroddiad gwreiddiol, maent yn parhau i gydgysylltu a monitro dilysrwydd data allweddol.

**4.** Fel rhan o'i gwaith i adolygu trefniadau cyrff y GIG ar gyfer sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio'r trefniadau ansawdd data mewn Byrddau Iechyd yng Nghymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynllunio'r adolygiad hwn gyda chyfraniad gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac rydym yn cynnal yr adolygiad ym mhob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru.

**5.** Er nad yw'r adolygiad hwn yn dilyn ymlaen yn uniongyrchol o argymhellion Gweinidogol 2008, rydym wedi ceisio cynnwys pob un o'r meysydd hyn yn ein gwaith adolygu. Felly, mae'r archwiliad wedi edrych ar:

- drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ymwneud ag ansawdd data;
- trefniadau gweithredol ansawdd data, gan gynnwys cyfrifoldebau, prosesau, gweithdrefnau, polisi a dulliau lleol ar gyfer monitro'n fewnol ac adrodd ar effeithiolrwydd prosesau ansawdd data; a
- pherfformiad ansawdd data.

**6.** Wrth ymgymryd â'r gwaith, rydym wedi adolygu dogfennau ac adroddiadau perthnasol allweddol, ac wedi cynnal cyfres o gyfweliadau gydag ystod o aelodau staff. Rydym hefyd wedi cynnal ymarfer dadansoddi data er mwyn nodi i ba raddau y dyblygir cofnodion cleifion o fewn a rhwng y brif System Gweinyddu Cleifion a'r Systemau Gwybodaeth Radioleg a RadCentre, fel dangosydd o effeithiolrwydd y trefniadau ansawdd data. Mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar drefniadau ansawdd data ar gyfer data'r Bwrdd Iechyd ei hun, ac felly nid yw'n ystyried trefniadau ansawdd data ar gyfer setiau data gofal sylfaenol.

**7.** Diben yr adolygiad hwn oedd nodi pa un a oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) drefniadau effeithiol o ran ansawdd data.

**8.** Rydym wedi dod i'r casgliad bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol o ran ansawdd data; fodd bynnag, mae ein dadansoddiad o ddata'n dangos graddau amrywiol o effeithiolrwydd ar gyfer sicrhau cysondeb o ran cywirdeb data.

**9.** Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod trefniadau llywodraethu a rheoli wedi'u sefydlu ar gyfer ansawdd data, ond gellid cryfhau'r trefniadau sicrwydd ymhellach;
- bod y polisi a'r prosesau ansawdd data yn briodol at ei gilydd; a
- bod ein dadansoddiad o ddata yn dangos darlun cymysg o ran cywirdeb ansawdd data.

# Argymhellion

**10.** Er mwyn helpu'r Bwrdd i symud ymlaen, rydym wedi darparu'r argymhellion canlynol:

**Sicrhau ansawdd data**

R1 Rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar lefel sefydliadol trwy gyflwyno adroddiad blynyddol ar ansawdd data sy'n ymdrin ag effeithiolrwydd y trefniadau sydd wedi'u sefydlu i sicrhau ansawdd data, ac sy'n bodloni anghenion data cenedlaethol a lleol.

R2 Sicrhau bod trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnwys ansawdd data'n briodol:

- sicrhau bod strwythurau atebolrwydd a chyfrifoldebau unigol yr holl staff am Ansawdd Data yn cael eu cyfathrebu'n eglur i bawb a bod pawb yn eu deall;
- monitro ac adolygu trefniadau Llywodraethu Ansawdd Data'r Bwrdd Iechyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.

**Proses ansawdd data**

R3 Diweddaru'r Polisi Ansawdd Data fel bod y polisi'n:

- ymdrin â phob agwedd ar y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys gofal sylfaenol ac anghenion ansawdd data a ddiffiniwyd yn lleol;
- nodi sut y mae'r Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodeg yn cydgysylltu ac yn rhoi sicrwydd o ran ansawdd data i bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd neu i'r Bwrdd ei hun; ac yn
- diffinio swyddogaeth a chyfrifoldeb y Rheolwr Ansawdd Data.

**Data demograffig cleifion a ddyblygwyd**

R4 Lleihau faint o ddata demograffig cleifion sy'n cael ei ddyblygu'n amhriodol o fewn systemau allweddol (megis y System Gweinyddu Cleifion, y System Gwybodaeth Radioleg, RadCentre ac eraill) a hybu defnydd cyson o rifau a dynodwyr cleifion y GIG.

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau wedi'u sefydlu ar gyfer llywodraethu a rheoli ansawdd data, ond gellid cryfhau'r trefniadau sicrwydd ymhellach

### Mae atebolrwydd wedi'i ddiffinio ar lefel weithredol

**11.** Mae'n bwysig bod uwch reolwyr yn parhau i hybu gwelliannau i ansawdd data lle y defnyddir gwybodaeth i gefnogi rheoli perfformiad corfforaethol, gwneud penderfyniadau clinigol a rheoli, a chyflenwi gwasanaethau. Y Bwrdd Iechyd sy'n atebol am ansawdd data yn y pen draw, ond rhennir cyfrifoldebau dirprwyedig rhwng y swyddogion gweithredol canlynol:


- Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol sy'n gyfrifol am gywirdeb a pherthnasedd data corfforaethol; a'r
- Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd sy'n gyfrifol ar y cyd am gywirdeb a pherthnasedd data a gesglir gan staff clinigol o fewn y sefydliad yn ystod y broses o drin cleifion.

**12.** Mae'r gydnabyddiaeth eang o bwysigrwydd ansawdd data ar lefel weithredol yn gryfder, yn enwedig ymhlith uwch aelodau staff mewn disgyblaethau clinigol a busnes. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod angen lliniaru unrhyw risg y gallai materion gael eu hesgeuluso oherwydd bod rheolwyr yn ansicr pwy y dylent gysylltu ag ef i adrodd am faterion neu eu symud i fyny'r ysgol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i sicrhau bod atebolrwydd a chyfrifoldeb yn cael eu cyfathrebu'n eglur, a bod pawb sy'n gysylltiedig ag ansawdd data yn eu deall.

## Gellid cryfhau'r fframwaith llywodraethu sydd wedi'i ddiffinio'n dda trwy adrodd ar sicrhau ansawdd yn fwy ffurfiol ar lefel y Bwrdd

**13.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu fframwaith llywodraethu a ddiffiniwyd yn dda ar gyfer ansawdd data (Ffigur 1).

Ffigur 1: Fframwaith sicrwydd y Bwrdd Iechyd ar gyfer Ansawdd Data




*Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg*

**14.** Mae swyddogaethau allweddol y prif grwpiau yn y fframwaith hwn (fel y'u diffinnir yn y Polisi Ansawdd Data) fel a ganlyn:

- Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn rhoi cyngor i'r Bwrdd Iechyd ynglŷn ag ansawdd, cyfanrwydd a diogelwch data personol, yn ogystal â mynediad ato a'r defnydd ohono, i gefnogi gofal iechyd o ansawdd uchel. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch hefyd yn gyfrifol am gael sicrwydd bod gwybodaeth yn cael ei chreu, ei storio, ei chadw'n ddiogel, ei lledaenu, ei defnyddio a'i gwaredu'n briodol ac yn unol â pholisïau a deddfwriaeth. Mae'r swyddogaethau hyn yn ofynion gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodeg yn gyfrifol am lywodraethu a darparu sicrwydd ar gyfer ansawdd data trwy hybu arfer da o ran ansawdd data a monitro perfformiad yn erbyn safonau ansawdd data cenedlaethol a lleol. Mae'r grŵp hwn yn adrodd i'r Bwrdd Gweithredol, gan gefnogi pwyslais ar

ansawdd data ar lefel weithredol, yn ogystal ag i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, lle y gallai materion a amlygir effeithio ar ofal cleifion.

- Mae'r Grŵp Llywio Canlyniadau Clinigol yn gyfrifol am graffu ar ddata canlyniadau clinigol allweddol ar ran y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys asesu dibynadwyedd data.

**15.** Mae'r Tîm Ansawdd Data yn gyfrifol am fonitro ansawdd a chyflawnder data cleifion a nodi unrhyw broblemau a allai godi. Mae'r tîm yn gyfrifol am gynnal archwiliadau dyddiol, cwblhau a chywiro data ar System Gweinyddu Cleifion y Bwrdd Iechyd, a rhybuddio rheolwyr am unrhyw faterion brys a nodwyd.

**16.** Mae gan y pwyllgorau, y grwpiau a'r byrddau o fewn y fframwaith gylch gorchwyl priodol sy'n ymdrin â nifer o faterion yn ymwneud ag ansawdd data. Mae ein gwaith yn dangos bod y Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodeg, yn arbennig, yn cynnal pwyslais sylweddol ar faterion ansawdd data. Fel rhan o'i agenda, mae'r grŵp yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar ddilysu ansawdd data a gwybodaeth am berfformiad Codio Clinigol, ac mae'n awdurdodi camau gweithredu i unioni neu wella trefniadau. Fodd bynnag, mae llawer o adnoddau'n gysylltiedig â'r Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodeg, sy'n cynnwys hyd at 40 o aelodau. Yn ogystal â maint sylweddol y grŵp hwn, amlygodd ein gwaith asesu strwythuredig yn 2011 risg bosibl y gallai'r trefniadau presennol wneud y gwahaniaeth rhwng penderfyniadau strategol a gweithredol yn aneglur. Er gwaethaf hyn, mae ein harsylwadau diweddar o'r Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodeg ar waith wedi dangos didwylledd a pharodrwydd i gydweithio gan yr aelodau staff hynny a oedd yn bresennol, sy'n mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at liniaru'r risg hon.

**17.** Nid yw'r Polisi Ansawdd Data yn amlygu sut y bydd y Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodeg yn cydgysylltu ac yn rhoi sicrwydd o ran ansawdd data i bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd. Er bod adroddiadau gweithredol ar ansawdd data'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodeg fel mater o drefn, ni pharatoir adroddiad blynyddol ar sicrwydd ansawdd data. Yn 2008, argymhellodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol y dylai Byrddau Iechyd gomisiynu adroddiad blynyddol ffurfiol ar ansawdd data ar gyfer y Bwrdd, er mwyn sicrhau pwyslais ar welliant parhaus. Felly, er bod fframwaith llywodraethu cyffredinol a ddiffiniwyd yn dda wedi'i sefydlu ar gyfer ansawdd data, gellid cryfhau'r trefniadau trwy baratoi adroddiadau sicrwydd mwy ffurfiol ynglŷn ag ansawdd data ar lefel y Bwrdd.

## Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau priodol wedi'u sefydlu o ran ansawdd data

**18.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau yn ymwneud ag ansawdd data. Ceir Rheolwr Ansawdd Data a Gwybodaeth Corfforaethol sy'n rheoli'r Tîm Ansawdd Data. Fodd bynnag, nid yw swyddogaeth y Rheolwr Ansawdd Data a Gwybodaeth Corfforaethol wedi'i diffinio ym Mholisi Ansawdd Data'r Bwrdd Iechyd.

**19.** Mae gan y Tîm Ansawdd Data ddigon o adnoddau ar gyfer ei ddibenion, gan gynnwys y Rheolwr Ansawdd Data, dau gydgysylltydd ansawdd data, dau gynorthwy-ydd gwybodaeth, swyddog gwybodaeth, a chlerc gwybodaeth.

**20.** Yn ogystal, er mwyn helpu i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal yn y sefydliad drwyddo draw, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno arweinwyr ansawdd data ym mhob cyfarwyddiaeth. Mae eu swyddogaethau'n cynnwys adolygu adroddiadau ar berfformiad ansawdd data ar gyfer eu meysydd eu hunain, a gweithio gyda'r Tîm Ansawdd Data i ddatrys materion penodol a gwella perfformiad o ran ansawdd data.

**21.** Mae swydd ddisgrifiadau'n cynnwys gofynion priodol ynglŷn ag ansawdd data ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio gyda chofnodion iechyd. Dangosodd yr aelodau staff a gyfwelwyd yn y sector acíwt ymrwymiad cyffredinol i wella ansawdd data, ac roeddent yn llwyr ddeall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, mae'n llai eglur pa un a yw'r un ffurfioldeb o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau yn bodoli ac yn effeithiol ar gyfer gwybodaeth a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd ond y mae sefydliadau eraill yn gyfrifol amdani, megis sefydliadau ym meysydd gofal cymunedol a gofal sylfaenol.

# Mae'r polisi a'r prosesau ansawdd data yn briodol at ei gilydd

## Mae'r polisi ansawdd data yn nodi gofynion allweddol ond nid yw ei gwmpas yn ymdrin yn eglur â gwybodaeth gan sefydliadau gofal sylfaenol, y mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu arni'n gynyddol

**22.** Diben polisi ansawdd data yw diffinio'r safonau y mae Bwrdd Iechyd yn disgwyl eu cyflawni, nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau, sicrhau bod dull yn bodoli i amlygu a dileu risgiau, a rhoi'r sicrwydd angenrheidiol ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau. Yn 2010, cymeradwywyd y Polisi Ansawdd Data gan y Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodeg; fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol hefyd. Mae'r polisi'n ymdrin â'r rhan fwyaf o'r themâu allweddol sy'n ofynnol i reoli a gwella ansawdd data, gan gynnwys:

- egwyddorion a diffiniadau;
- cwmpas y polisi;
- cyfrifoldebau (staff a grwpiau);
- fframwaith llywodraethu;
- prosesau (monitro/adrodd); a
- gofyniad i ddarparu adroddiadau sicrwydd,

**23.** Er bod y Polisi Ansawdd Data yn cynnwys y gofyniad i ddarparu adroddiadau sicrwydd, nid yw'n dangos sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn y rhain. Byddai adroddiad blynyddol i'r Bwrdd yn rhoi'r sicrwydd hwn, a dylid datgan yr angen i baratoi adroddiad o'r fath yn y polisi.

**24.** Mae'r polisi wedi'i gyhoeddi ar safle mewnrwyd y Bwrdd Iechyd ac mae'r Tîm Ansawdd Data wedi bod mewn cysylltiad â Chyfarwyddiaethau ac Adrannau i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r polisi. Mae'r arweinwyr ansawdd data a grybwyllwyd yn flaenorol yn cael y cyfle i fod yn ddylanwadol wrth hybu'r Polisi Ansawdd Data ar draws y sefydliad.

**25.** Er bod y polisi'n berthnasol i bob aelod o staff sy'n cofnodi gwybodaeth am gleifion ar systemau gofal eilaidd neu gymunedol, cydnabyddir ansawdd data gofal sylfaenol yn fras yn unig gan fod gwybodeg gofal sylfaenol yn cael ei chefnogi gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i raddau helaeth.

**26.** Wrth i fodelau iechyd foderneiddio o dan fframwaith 'Gosod y Cyfeiriad', ceir dibyniaeth gynyddol ar wybodaeth gydgysylltiedig am berfformiad o ran canlyniadau a gweithgarwch ar draws lleoliadau sylfaenol, cymunedol ac acíwt. Felly, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwybodaeth sylfaenol a chymunedol yr un mor gadarn â data acíwt. Cydnabuwyd hyn mewn ymateb diweddar gan reolwyr i argymhellion archwiliad mewnol. Yn yr ymateb hwn, amlygodd y Bwrdd Iechyd ystod o gamau gweithredu i wella ansawdd data ar lefel acíwt, ond ychydig iawn o'r camau oedd yn canolbwyntio ar ansawdd data gofal sylfaenol oherwydd meddygon teulu sy'n dal i fod yn gyfrifol am hyn gyda chymorth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau a gweithdrefnau priodol i gyflawni safonau ansawdd data cenedlaethol

**27.** Mae'n bwysig bod gan y Bwrdd Iechyd brosesau a gweithdrefnau a ddiffiniwyd yn briodol sy'n gosod y safonau ar gyfer sicrhau data o ansawdd da. Mae prosesau wedi'u sefydlu i helpu i gyflawni safonau dilysu cenedlaethol. Er enghraifft, mae gan y Bwrdd Iechyd weithdrefn fanwl i nodi camgymeriadau mewn cofnodion cleifion a dderbyniwyd, ac i gymryd camau i unioni'r camgymeriad a'i atal rhag digwydd eto.

**28.** Mae prosesau cofnodedig priodol wedi'u sefydlu i sicrhau y bodlonir anghenion data lleol ar gyfer data gweinyddu cleifion a data a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Cofnodion Iechyd. Creodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Gwella Prosesau yn 2011 i helpu i wella gweithdrefnau a phrosesau ymhellach. Grŵp anffurfiol yw hwn a chanddo gylch gorchwyl i greu prosesau ansawdd data a'u cofnodi'n briodol. Roedd y grŵp yn sefydlu ei gylch gorchwyl ar adeg ein gwaith maes.

**29.** Mae'r Tîm Ansawdd Data yn cyflawni nifer o archwiliadau dilysrwydd ac ansawdd data er mwyn cynnal lefel uchel o ansawdd data ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae trefniadau effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau ansawdd y cyflwyniadau data i Lywodraeth Cymru. Mae'r tîm gwybodeg yn:

- Defnyddio dull adrodd Dilysu wrth y Ffynhonnell i wirio a phrofi data cyn ei gyflwyno i lywodraeth ganolog. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio adroddiadau misol electronig CHKS i gefnogi prosesau dadansoddi data. Mae hyn yn helpu i nodi anghysondebau a blaenoriaethu'r meysydd allweddol lle y gallai fod angen rhoi sylw i ansawdd data.

- Datblygu cronfa ddata dilysu ar gyfer data Damweiniau ac Achosion Brys a data'r System Gweinyddu Cleifion, a fydd yn cynhyrchu adborth awtomatig i nodi unrhyw anghysondebau o ran data.
- Defnyddio data Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru sy'n cefnogi'r broses o ddilysu, er enghraifft, rhifau'r GIG ac enwau'r Byrddau Iechyd.

**30.** Mae Rhaglen Archwilio Codio Clinigol wedi'i sefydlu ac yn cael ei monitro yn ystod cyfarfodydd goruchwylwyr codio. Cynhelir yr archwiliadau Codio Clinigol hyn ar gyfer pob unigolyn sy'n gyfrifol am godio ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd cyn cyfarfodydd Adolygu Datblygiad Personol.

**31.** Amlygodd archwiliad a gynhaliwyd gan y gwasanaeth codio (yn hwyr yn 2011) o 100 o gyfnodau gofal y rhoddwyd cod iddynt yn ysbytai Singleton a Threforys fod gan 73 o'r cofnodion brif ddiagnosis cywir. Roedd canran uchel o'r camgymeriadau yn ymwneud â diffyg crynodeb rhyddhau ar yr adeg rhoi cod. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'n briodol trwy gyflwyno tîm ôl-groniad yn safle Treforys yn ogystal â sefydlu dulliau i gynyddu ymwybyddiaeth o ansawdd data ar draws y gwasanaeth codio, fel yr amlinellwyd mewn papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar 23 Chwefror 2012. Yn dilyn hyn, adroddwyd am welliant mewn cyflawnder codio ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella amseroldeb ac ansawdd crynodebau rhyddhau, fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Awst 2012.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ystod briodol o weithgareddau hyfforddiant, addysg ac ymwybyddiaeth ynglŷn ag ansawdd data

**32.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ystod o wahanol ddulliau o hyfforddi a chynorthwyo staff er mwyn helpu i wella ansawdd data. Mae'r dulliau hyn yn amrywio o ran helaethder a chwmpas yn seiliedig ar anghenion staff, er bod y prif bwyslais ar y wybodaeth o'r sector acíwt.

**33.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu hyfforddiant i'r staff er mwyn eu helpu i ymgymryd â phrosesau a gweithdrefnau gweithredol gan ddefnyddio'r System Gweinyddu Cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl i'r staff barhau i ddilyn hyfforddiant diweddaru sgiliau wedi hynny yn ôl yr angen.

**34.** Gan fod ansawdd data yn bwysig i'r busnes, mae'n briodol ei fod yn rhan o'r broses sefydlu ar gyfer staff allweddol, fel eu bod yn ymwybodol o'i bwysigrwydd ac yn dilyn safonau ansawdd data ym mhob agwedd ar eu gwaith pob dydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys ansawdd data mewn sesiynau sefydlu ar gyfer staff gwybodeg perthnasol. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau staff o'r farn y gellid gwneud mwy i addysgu staff gofal sylfaenol ynglŷn â phwysigrwydd ansawdd data.

**35.** Mae'r Tîm Ansawdd Data hefyd wedi datblygu a chynnal sesiynau cyflwyno ar gyfer derbynyddion wardiau, staff rheoli llwybr a staff Damweiniau ac Achosion Brys yn Nhreforys. Mae'r tîm wedi cynnal wyth sesiwn, a fynychwyd yn dda ac a werthfawrogwyd gan y staff.

36. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cynnal cyrsiau hyfforddi arbenigol ar godio clinigol ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd ac yn darparu hyfforddiant diweddaru sgiliau ar Godio Clinigol bob tair blynedd. Os gwneir unrhyw newidiadau o fewn y GIG, neu os cyflwynir safonau data newydd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal 'clinigau' i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff. Anogir staff Codio Clinigol i wneud cais am y cymhwyster Codio Clinigol Achrededig hefyd.

37. Mae'r Gwasanaeth Codio wedi ceisio hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a'r effaith ar gywirdeb codio yn y Bwrdd Iechyd trwy'r ffyrdd canlynol:

- Darparu trosolwg o'r swyddogaeth codio fel rhan o'r broses sefydlu ar gyfer staff Gweinyddol a Chlercyddol a'r rhaglen derbynyddion wardiau, er mwyn gwella ansawdd data am gyfnodau gofal cleifion.
- Cyhoeddi erthyglau newyddion ar safle mewnrwyd y Bwrdd Iechyd.
- Tynnu sylw staff meddygol at unrhyw faterion o bwys a brofir gan y rhai sy'n gyfrifol am roi codau, gan gynnwys llawysgrifen annarllenadwy, arferion gwael o ran cadw cofnodion ac absenoldeb crynodebau rhyddhau mewn nodiadau achos. Mae'r materion hyn yn effeithio ar amseroldeb a chywirdeb data Codio Clinigol yn y pen draw.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn briodol i adolygiad Archwiliad Mewnol ar ansawdd data

38. Cynhaliodd yr Archwilwyr Mewnol adolygiad o ansawdd data, a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Ionawr 2011. Rhoddwyd sgôr Ddigonol. Yr amcanion rheoli a adolygwyd yn ystod yr archwiliad hwn oedd y rhai a nodwyd yn y llythyr Gweinidogol EH/ML/007/08. Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad llawn o ansawdd data demograffig a chlinigol yn ymwneud â phedair set ddata allweddol am gleifion:

- Gofal Cleifion a Dderbyniwyd;
- Gweithgarwch Cleifion Allanol;
- Atgyfeiriadau Cleifion Allanol; a'r
- Adran Frys.

39. O ganlyniad i'r adolygiad Archwiliad Mewnol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu sydd wedi ymateb yn briodol i'r argymhellion, ac mae wedi adrodd ar gynnydd i'r pwyllgor perthnasol. Fel yr amlygwyd gennym yn flaenorol, mae'r ymateb hwn yn canolbwyntio llawer mwy ar weithgarwch acíwt na gofal sylfaenol a chymunedol. Yn rhan o'r ymateb hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei brosesau dilysu ansawdd data a'i ddangosyddion perfformiad yn ymwneud ag ansawdd data, ac mae yn y broses o roi'r trefniadau newydd ar waith. Bydd yr Archwilwyr Mewnol yn cynnal adolygiadau ychwanegol ynglŷn ag ansawdd data yn 2012, gan gynnwys data am amserau atgyfeirio i driniaeth a matricsau wardiau.

## Mae ein dadansoddiad o ddata yn dangos darlun cymysg o ran cywirdeb ansawdd data


**40.** Roedd ein harchwiliad yn cynnwys adolygiad o berfformiad y Bwrdd Iechyd yn unol â thargedau dilysu data cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwnaethom hefyd gynnal dadansoddiad Techneg Archwilio gyda Chymorth Cyfrifiadur o ddata demograffig cleifion i asesu nifer y cofnodion dyblyg a chofnodion heb ddynodwr claf. Cynhaliwyd y dadansoddiad ar systemau Gweinyddu Cleifion (8.5 miliwn o gofnodion) a'r System Gwybodaeth Radioleg (5.2 miliwn o gofnodion) y Bwrdd Iechyd.

**41.** Mae Byrddau Iechyd ledled Cymru yn cyflwyno data i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn iddo gynnal archwiliadau dilysrwydd. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn hysbysu'r Byrddau Iechyd am y canlyniadau yn rheolaidd; fel arfer bob mis neu bob deufis. http://howis.wales.nhs.uk/pmuw/chip

**42.** Rydym wedi adolygu'r pedwar adroddiad dilysrwydd data yn ymwneud â'r cyfnod o 1 Ebrill i 30 Tachwedd 2011. Mae'r adroddiadau hyn yn ymdrin â gofal cleifion a dderbyniwyd, atgyfeiriadau cleifion allanol, gweithgarwch cleifion allanol a data adrannau brys. Mae adroddiadau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn nodi canran yr eitemau data sydd wedi bodloni'r safonau cenedlaethol. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn Ffigurau 2 i 5 yn rhoi crynodeb o adroddiadau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac yn dangos canran y grŵp o feysydd data mewn set sy'n bodloni'r targed cenedlaethol ar gyfer y dangosydd hwnnw.


**43.** Yn gyffredinol, mae'r ffigurau'n dangos bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni'r rhan fwyaf o'r safonau dilysrwydd a bod ei berfformiad yn gyson â chyfartaledd Cymru neu'n uwch na hynny. Er enghraifft, mae Ffigur 2 yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni'r targedau dilysrwydd cenedlaethol ar gyfer 97 y cant o'r eitemau data a archwiliwyd o fewn y set ddata ar gyfer gofal cleifion a dderbyniwyd. Mae Ffigur 3 yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni'r rhan fwyaf (87 y cant) o'r safonau dilysrwydd ar gyfer y set ddata cleifion allanol, ond bod ei berfformiad ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Er bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn rhagori ar gyfartaledd Cymru mewn tri o'r pedwar maes, mae lle i wella ymhellach.

Ffigur 2: Gofal cleifion a dderbyniwyd – dilysrwydd y set ddata





*Ffynhonnell: Adroddiadau dilysrwydd data Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (1 Ebrill i 30 Tachwedd 2011)*

Ffigur 3: Atgyfeirio cleifion allanol – dilysrwydd y set ddata





*Ffynhonnell: Adroddiadau dilysrwydd data Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (1 Ebrill i 30 Tachwedd 2011)*

Ffigur 4: Gweithgarwch cleifion allanol – dilysrwydd y set ddata




*Ffynhonnell: Adroddiadau dilysrwydd data Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (1 Ebrill i 30 Tachwedd 2011)*

Ffigur 5: Adrannau Brys – dilysrwydd y set ddata




*Ffynhonnell: Adroddiadau dilysrwydd data Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (1 Ebrill i 30 Tachwedd 2011)*

## Mae ein dadansoddiad o ddata demograffig ar y System Gweinyddu Cleifion a'r System Gwybodaeth Radioleg yn dangos bod angen i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i fynd i'r afael â chofnodion dyblyg a chofnodion lle na cheir dynodwr claf

**44.** Un o sylfeini allweddol data o ansawdd da yn y GIG yw gwybodaeth ddemograffig am gleifion, er enghraifft enw, cyfeiriad a dyddiad geni. Yn aml, defnyddir systemau ar wahân ar gyfer gwybodaeth am gleifion ar draws gwahanol ysbytai ac adrannau megis Radioleg. Mae hyn yn golygu y gall claf sydd wedi derbyn gofal mewn nifer o wahanol leoliadau gael sawl cofnod a dynodwr. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n annhebygol y bydd y Bwrdd Iechyd yn cadw'r holl wybodaeth glinigol am y claf hwnnw mewn un man. Mae hyn yn creu risgiau posibl o ran diogelwch clinigol ac yn ei gwneud hi'n fwy anodd dod o hyd i'r cofnodion cywir ar gyfer claf penodol. Dylai datblygu a gweithredu'r datrysiad EMPI helpu'r staff i reoli cofnodion a lleihau cofnodion dyblyg.

**45.** Gwnaethom ddadansoddi'r data demograffig craidd a gedwir am gleifion ar y System Gweinyddu Cleifion a'r System Gwybodaeth Radioleg i asesu nifer y cofnodion dyblyg, neu achosion lle yr oedd dynodwr claf ar goll. Yn y Bwrdd Iechyd, roedd ein hadolygiad o ddata'r System Gweinyddu Cleifion yn cynnwys y system Myrddin a ddefnyddir yn ysbytai Treforys a Singleton (y cyfeirir atynt fel 'Abertawe') a'r system PIMs yn ysbytai Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot (y cyfeirir atynt fel 'Pen-y-bont ar Ogwr').

**46.** Dyma ganfyddiadau allweddol y gwaith hwn:

- Mae'r data demograffig am gleifion a gedwir ar y System Gweinyddu Cleifion yn cynnwys 245,753 (11.4 y cant) o rifau GIG dyblyg. Mae hyn yn dangos bod angen peth gwelliant o ran glanhau er mwyn helpu i leihau cymaint â phosibl ar gamgymeriadau, risgiau ac aneffeithlonrwydd. Yn ddelfrydol, ni ddylai fod unrhyw rifau dyblyg.
- Mae 317,542 (28 y cant) o gleifion sydd wedi'u cofrestru ar y System Gweinyddu Cleifion ym Mhen-y-bont ar Ogwr nad oes ganddynt rif GIG, a'r nifer cyfatebol yn Abertawe yw 143,427 (13 y cant). At ei gilydd, mae hyn yn cyfateb i 460,919 (21 y cant) ar draws y ddwy System Gweinyddu Cleifion. Mae hyn yn cymharu'n wael â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. Hyd yn oed ar ôl ystyried materion a etifeddwyd a chofnodion cleifion tramor, nifer cyfyngedig yn unig o gleifion newydd heb rifau GIG ddylai fod yn y system. Mae'r perfformiad hwn yn awgrymu bod risg glinigol bosibl o ran adnabod y cofnod claf cywir ar gyfer y cleifion hynny nad oes ganddynt rif GIG. Yn ogystal, gall diffyg rhif GIG gael effaith ariannol oherwydd ni fydd sefydliadau'n gallu adennill costau triniaeth sy'n gysylltiedig â chleifion a atgyfeirir o Fwrdd Iechyd Lleol arall yng Nghymru, neu o Loegr.
- Mae'r data demograffig am gleifion a gedwir ar y system RadCentre yn Abertawe yn cynnwys 16,454 o gofnodion dyblyg (3.25 y cant), ond ni cheir unrhyw gofnodion dyblyg ar y System Gwybodaeth Radioleg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. O gymharu, dyma'r perfformiad gwaethaf a gorau yng Nghymru, yn ôl eu trefn.

Yr hyn sy'n achosi mwy o bryder yw nifer y cleifion heb rifau GIG sydd ar y system, sef 17.2 y cant yn Abertawe a 10.7 y cant ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gallai hyn fod oherwydd ceisiadau diagnostig gan ofal sylfaenol neu gymunedol, nad oes ganddynt ddynodwr GIG, ond fe allai ei gwneud hi'n fwy anodd olrhain a chysylltu'r Gweithgarwch Diagnostig Radioleg llawn ar gyfer rhai cleifion i'w cofnod ar y System Gweinyddu Cleifion.

**47.** Mae ein dadansoddiad o ddata yn dangos y gallai fod rhai risgiau i'r Bwrdd, o ran risgiau clinigol ac aneffeithlonrwydd busnes, yn deillio o gofrestriadau dyblyg a'r ffaith nad oes gan rai cleifion rif GIG, fel y crybwyllwyd uchod. Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys meysydd i'w gwella mewn prif gynlluniau mynegai cleifion a phrosesau glanhau presennol. Rhoddir mwy o fanylion am ganlyniadau ein profion data yn Atodiad 1.

# Atodiad 1

## Canlyniadau’r dadansoddiad o ddata demograffig cleifion

Mae’r atodiad hwn yn rhoi mwy o wybodaeth o’n dadansoddiad o ddata demograffig cleifion ar y System Gweinyddu Cleifion, y System Gwybodaeth Radioleg a RadCentre.

Mae’r tabl isod yn rhoi crynodeb o’r canfyddiadau cyffredinol. Fe’i dilynir gan gyfres o siartiau sy’n cymharu’r canfyddiadau yn y Bwrdd Iechyd â’r rhai hynny mewn cyrff eraill y GIG yng Nghymru.

| Dangosydd | Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Cymru |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y cofnodion cleifion electronig (System Gweinyddu Cleifion) yn y Bwrdd Iechyd:<br>• Cofnodion ym Mhen-y-bont ar Ogwr (PIMMS)<br>• Cofnodion yn Abertawe (Myrddin) | 2,199,976<br><br>1,135,816<br>1,064,160 | 8.5 miliwn (cyfanswm) |
| Cyfanswm nifer y cofnodion heb rif GIG wedi’i gofnodi:<br>• Cofnodion ym Mhen-y-bont ar Ogwr<br>• Cofnodion yn Abertawe | 460,919 (21 y cant)<br>317,542 (28 y cant)<br>143,427 (13 y cant) | 1,150,090 (cyfanswm)<br>16 y cant (cyfartaledd) |
| Cyfanswm nifer y cofrestriadau dyblyg ar y System Gweinyddu Cleifion ym Mwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg rhwng safleoedd y Bwrdd Iechyd yn unig | 166,291 (7.5 y cant) | |
| Cyfanswm nifer y cofrestriadau dyblyg o fewn pob System Gweinyddu Cleifion unigol:<br>• Cofnodion ym Mhen-y-bont ar Ogwr<br>• Cofnodion yn Abertawe | 245,753 (11.4 y cant)<br><br>51,511 (4.5 y cant)<br>194,242 (18.3 y cant) | 6.2 y cant (cyfartaledd) |
| Cyfanswm nifer y cofnodion Radioleg ym Mwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg:<br>• Cofnodion ym Mhen-y-bont ar Ogwr (System Gwybodaeth Radioleg)<br>• Cofnodion yn Abertawe (RadCentre) | 995,612<br><br>449,349<br>506,263 | 5.2 miliwn (cyfanswm) |
| Cofnodion ar y System Gweinyddu Cleifion sydd â mwy nag un cofnod Radioleg cyfatebol yn ôl Rhif GIG | 3,819 (2 gofnod)<br>54 (3 chofnod neu fwy) | 5,821 (2)<br>237 (3 neu fwy)<br>Cyfartaledd |
| Cofnodion Radioleg sydd â mwy nag un cofnod cyfatebol ar y System Gweinyddu Cleifion | 19,755 (2 gofnod)<br>306 (3 chofnod neu fwy) | 20,900 (2)<br>758 (3 neu fwy)<br>Cyfartaledd |

Mae ein dadansoddiad o’r data yn dangos nad yw’r data demograffig a gedwir ar y systemau Gweinyddu Cleifion a Radioleg yn y Bwrdd Iechyd yn arbennig o gyson. Yn gyffredinol, roedd y dangosyddion a werthuswyd gennym yn cymharu’n anffafriol â gweddill Cymru. Ceir nifer uwch na’r disgwyl o gofnodion ar y System Gweinyddu Cleifion sydd heb rifau GIG, a nifer uwch na’r cyfartaledd o gofnodion Radioleg sydd heb rifau GIG a dynodwyr ysbyty.


Er nad yw hyn yn cyfleu’r darlun llawn o ran ansawdd data, mae gwybodaeth ddemograffig lân a reolir yn dda yn rhagofyniad ar gyfer lefel dda o ansawdd data yn gyffredinol, ac mae lle i wneud mwy o waith er mwyn sicrhau bod nifer y cofrestriadau dyblyg a rhifau GIG sydd ar goll yn cyrraedd lefelau mwy derbyniol ar draws y Bwrdd Iechyd Lleol.

Wrth archwilio cofrestriadau dyblyg ar draws y gwahanol Systemau Gweinyddu Cleifion, canfuom y rhennir oddeutu 7.5 y cant (166,291) o gofrestriadau rhwng y ddwy System Gweinyddu Cleifion a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y Bwrdd Iechyd. Gellid disgwyl y lefel hon o gofrestriadau dyblyg gan ei bod yn adlewyrchu llif cleifion sy’n cael triniaeth mewn mwy nag un safle yn ystod eu hoes. Fodd bynnag, mae perygl y gallai cofnodion ffisegol ym mhob safle ar gyfer claf penodol gynnwys hanes meddygol rhannol yn unig.

Wrth archwilio’r Systemau Gweinyddu Cleifion unigol, canfuom wahaniaeth mawr rhwng y ddwy system. Ceir oddeutu 4.5 y cant o gofrestriadau dyblyg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 6.2 y cant, ond ceir 18 y cant o gofrestriadau dyblyg yn Abertawe, sy’n sylweddol uwch. Dylai cyflwyno’r system EMPI wneud cyfraniad sylweddol at wella’r sefyllfa hon.


Problem arall yw nifer y cofnodion a gedwir sydd heb rif GIG, sef 460,919 (21 y cant) yn y Bwrdd Iechyd. Mae’r rhaniad yn hyn o beth yn anghyson unwaith eto, gyda mwy na dwywaith cymaint ym Mhen-y-bont ar Ogwr nag yn Abertawe.

Siart 1 – System Gweinyddu Cleifion: Cleifion â sawl gwahanol ddynodwr





Mae Siart 1 yn dangos y cofrestriadau dyblyg sydd â gwahanol ddynodwyr o fewn pob System Gweinyddu Cleifion unigol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod gan gleifion fwy nag un cofnod electronig mewn un safle. Gallai hyn achosi risg glinigol os oes gan y claf nodiadau achos ysgrifenedig dyblyg hefyd. Mae Byrddau Iechyd Lleol eraill yng Nghymru wedi'u cynnwys yn ddienw. Mae'r siart yn dangos bod gan y Bwrdd Iechyd 4.5 y cant o gofrestriadau dyblyg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n debyg i'r amrediad canolig yng Nghymru, ond y ceir llawer mwy o achosion yn Abertawe.

Siart 2 – System Gweinyddu Cleifion: Cleifion sydd heb rifau GIG wedi'u cofnodi





Mae Siart 2 yn dangos nifer y cofnodion sydd heb rif GIG yn y gwahanol Systemau Gweinyddu Cleifion ar draws Cymru. Er bod modd adnabod cleifion yn ôl eu manylion personol, neu ddefnyddio rhifau ysbyty sydd eisoes yn bodoli, mae'r dulliau hyn yn llai dibynadwy na defnyddio rhifau GIG. Yn ogystal, gall diffyg rhif GIG gael effaith ariannol gan na fydd Byrddau Iechyd Lleol yn gallu adennill costau triniaeth sy'n gysylltiedig â chleifion o Fyrddau Iechyd Lleol eraill yng Nghymru neu weddill y DU heb ddyfynnu'r rhif GIG. Ar gyfartaledd, mae nifer y cofnodion yn y Bwrdd Iechyd sydd heb rif GIG yn tueddu tuag at ben uchaf yr amrediad yng Nghymru; ceir llawer llai o'r cofnodion hyn yn System Gweinyddu Cleifion Abertawe nag ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd â'r gyfran uchaf yng Nghymru.

## Siart 3 – Radioleg: Cleifion â sawl gwahanol ddynodwr




Mae Siart 3 yn dangos cofrestriadau dyblyg sydd â gwahanol ddynodwyr ym mhob system radioleg unigol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod gan gleifion fwy nag un cofnod electronig mewn un safle. Gallai hyn achosi risg glinigol ac arwain at gofnod diagnostig anghyflawn os cofnodir canlyniadau ar un o gofnodion electronig y claf yn unig.


## Siart 4 - Radioleg: Cleifion sydd heb ddynodwyr wedi'u cofnodi




Mae'r siart hwn yn cymharu cofnodion radioleg sydd heb ddynodwr o gwbl (rhif GIG neu rif ysbyty) ym mhob system radioleg a ddefnyddir yng Nghymru. Mae'r cofnodion hyn yn anodd eu cydweddu â chofnod cyfatebol ar System Gweinyddu Cleifion.

Mae hyn yn golygu y gallai claf unigol fod ag un neu fwy o gofnodion radioleg na ellir eu cydweddu'n rhwydd â gweddill ei gofnodion meddygol. Gallai hyn gyflwyno risg glinigol oherwydd mae'n bosibl mai dim ond rhan o gofnod electronig llawn claf a ddangosir wrth chwilio am wybodaeth trwy'r System Gweinyddu Cleifion. O ran effeithlonrwydd, gallai hyn olygu bod cleifion yn cael mwy o ymchwiliadau radioleg nag sydd eu hangen. Mae Byrddau Iechyd Lleol eraill yng Nghymru wedi'u cynnwys yn ddienw, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cymharu'n llai ffafriol â'r rhain, gan ei fod yn tueddu tuag at ben uchaf yr amrediad.


Siart 5 – Mwy nag un cofnod Radioleg yn cyfateb i gofnod System Gweinyddu Cleifion




Mae'r siart hwn yn cymharu nifer yr achosion lle y mae gan glaf sydd ag o leiaf un cofnod ar y System Gweinyddu Cleifion ddau neu fwy o gofnodion cysylltiedig ar y system radioleg. Yn yr achos hwn, rydym wedi ystyried yr holl systemau Gweinyddu Cleifion a Radioleg ym mhob Bwrdd Iechyd gyda'i gilydd.

Mae hyn yn golygu bod gan glaf unigol fwy nag un cofnod Radioleg. Yn y Bwrdd Iechyd, canfuom oddeutu 3819 o gleifion â dau gofnod Radioleg ar wahân, a 54 o gleifion â thri chofnod Radioleg neu fwy. Gallai hyn achosi risg yn yr ystyr bod darlun anghyflawn ar gael i glinigwyr ar yr adeg rhoi triniaeth, neu gallai cleifion fod wedi cael mwy o ymchwiliadau radioleg nag sydd eu hangen.

Siart 6 – Mwy nag un cofnod System Gweinyddu Cleifion yn cyfateb i un cofnod Radioleg




Mae'r siart hwn yn dangos achosion lle y mae gan glaf o leiaf un cofnod Radioleg yn gysylltiedig â mwy nag un cofnod System Gweinyddu Cleifion. Mae'r patrwm ar gyfer Cymru yn debyg iawn i hwnnw yn Siart 5, er bod y niferoedd dan sylw yn sylweddol uwch. Mae'n debygol mai'r rheswm dros hyn yw bod cofrestriadau dyblyg yn llawer mwy cyffredin ar Systemau Gweinyddu Cleifion nag ar systemau Radioleg. Mae'r un risgiau clinigol yn berthnasol, sef bod y sefyllfa hon yn ei gwneud hi'n anodd gwarantu bod yr holl wybodaeth radioleg yn cael ei gweld wrth chwilio am wybodaeth am gleifion unigol.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk